Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod** 24 Tachwedd 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Cynghorydd Tony Thomas – Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

**Awdur yr Adroddiad** Craig Berry, Rheolwr y Tîm Gwybodaeth Busnes

**Teitl** Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am gynnig am adeilad Archif Passivhaus newydd pwrpasol yn yr Wyddgrug, i letya'r Gwasanaeth Archif newydd ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae'r ganolfan archif newydd yn destun ar sicrhau'r cyllid grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol (NLHF) ac arian cyfatebol gan y ddau Gyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae cymeradwyaeth yn cael ei geisio i gyflwyno cais Rownd 1 i'r NLHF.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 3.2 Cabinet yn cytuno i'r Gwasanaeth Archifau ar y cyd i gyflwyno cynnig i'r cam nesaf (Rownd 1) o'r Cronfa Gorwelion Treftadaeth y Loteri NLHF.

3.2 I nodi'r galw posibl ar gronfeydd y Cyngor o £2,034,521 er mwyn darparu'r ganolfan archifau newydd. Mae hyn yn destun i'r cynnig fod yn llwyddiannus yn y cam Rownd 1 o'r broses cais NLHF a chael cynnig cadarn o gronfeydd.

3.3 Bu i'r Cabinet ardystio'r dull at Garchar Rhuthun ac i'r estyniad arfaethedig o'r atyniad treftadaeth, fel yr amlinellwyd yn adran 4.8.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae gan y ddau Gyngor ddyletswyddau deddfwriaethol i gasglu, cadw a gwneud dogfennau o bwysigrwydd hanesyddol yn hygyrch. Mae cynghorau Sir y Fflint (SFf) a Sir Ddinbych (SDd) yn wynebu nifer o wahanol heriau sydd yn effeithio eu gallu i fodloni'r gofynion deddfwriaethol ac wedi bod yn gweithio ar y cyd dros y blynyddoedd diwethaf ar greu gwasanaeth archif gwell a mwy cynhaliol i'r rhanbarth. Mae hyn wedi arwain at lansio gwasanaeth unigol a rennir, i ddechrau ar 2 safle – Penarlâg a Rhuthun. Mae'r gwasanaeth ar y cyd wedi datblygu cynnig Grant Treftadaeth Gorwelion NLHF i gyllido adeiladu adeilad Passivhaus newydd pwrpasol ger Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug a chynllun gweithgaredd 3 blynedd cysylltiedig.

4.2 Dewiswyd y safle arfaethedig yn yr Wyddgrug yn dilyn astudiaeth dichonolrwydd safle, a gynhaliwyd gan ymgynghorydd annibynnol (gweler grynodeb gweithredol yn Atodiad E).

4.3 Mae'r cerrig milltir allweddol wedi'u nodi isod.

| | |
|---|---|
| Hydref 2019 | Dyfarniad Treftadaeth Gorwelion NLHF – Datganiad o Ddiddordeb |
| Chwefror 2020 | Dyfarniad Cronfa Treftadaeth Gorwelion NLHF - Cyflwyniad |
| Ebrill 2020 | Lansio gwasanaeth archif ar y cyd |
| Chwe 2021 | Dyfarniad Treftadaeth Gorwelion NLHF – Cyflwyniad Rownd 1 i'w gyflwyno |
| Mehefin 2021 | Penderfyniad NLHF ar roi'r dyfarniad |

**4.4. <u>ANGEN</u>**

4.4.1 Mae'r Gwasanaeth Archifau o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd 70% o Garchar Rhuthun, gyda'r Gwasanaeth Treftadaeth y Cyngor yn cynnal atyniad i ymwelwyr yn y gweddill sy'n 30%. Mae'n hen adeilad, wedi'i ddylunio ar gyfer carchar, gyda chostau cynnal a chadw/ cynnal sylweddol ac aneffeithlonrwydd gweithredol. Byddai'r symudiad arfaethedig i ganolfan archif Passivhaus pwrpasol newydd a fyddai'n caniatáu i Gyngor Sir Ddinbych osgoi costau penodol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad D, ond mae'r costau fwyaf sylweddol wedi'u nodi isod.

I. Disgwylir na fydd digon o le i'r gwasanaeth archif mewn 2 flynedd ac nid oes llawer o gwmpas i ymestyn ar y safle. Byddai angen ystyried storfa allanol masnachol a gwasanaethau adalwad a fydd yn gostus.

II. Mae'r system rheoli amgylcheddol yn y Carchar yn dod i ddiwedd ei gylch bywyd. Bydd cael un newydd yn costio oddeutu £65 mil i'r rhanbarth.

III. Bydd angen cyfarpar oeri’r aer newydd yn y blynyddoedd nesaf ac amcangyfrifir y bydd hyn yn costio oddeutu £650 mil i’r rhanbarth.

IV. Mae cyfanswm costau rhedeg yr adeilad o £70 mil y flwyddyn yn cynyddu bob blwyddyn.

4.4.2 Amcangyfrifir bod y buddsoddiad sydd ei angen i'r gwasanaeth archifau aros yn y Carchar yn ddrytach erbyn 2035 na’r £2 filiwn sydd ei angen i'r adeilad newydd.

**4.5 UCHELGAIS**

4.5.1 Mae’r prosiect yn ceisio creu canolfan ddiwylliannol hygyrch ac sy’n ysbrydoli i fod yn brif ffynhonnell o hanes Gogledd Ddwyrain Cymru gan gyfuno dau wasanaeth archifau awdurdod lleol, a dod â 900 mlynedd o archifau at ei gilydd. Bydd y prosiect yn galluogi gwasanaeth ar y cyd i arallgyfeirio cynulleidfaoedd a datblygu presenoldeb sy’n creu effaith yn y rhanbarth.

**4.6 CYFLE**

4.6.1 Mae’r cynnig wedi’i roi ar y rhestr fer o 200 a ddaeth i law, ac wedi cyrraedd y 12 terfynol a'r unig gynnig sydd yno o Gymru. Mae’r NLHF wedi cefnogi'r prosiect ac yn arbennig, wedi canmol y ffordd yr ydym yn cynllunio arallgyfeirio ein cynulleidfa ac ymgysylltu â sectorau yn ein cymuned sydd heb ddefnyddio’r gwasanaethau archifau yn draddodiadol. Mae’r arloesedd a phosibilrwydd y prosiect wedi ei gydnabod gan nifer o randdeiliaid pwysig a dylanwadol, sydd yn eu tro wedi darparu llythyrau yn cefnogi – Ken Skates (AC), Yr Archifau Gwladol a Sefydliad Cyngor Cofnodion Cymru (gweler atodiad A).

**4.7 SUT FYDD CYNGOR SIR DDINBYCH YN EI ELWA O’R PROSIECT**

4.7.1 Gweler Atodiad D i weld tabl o fuddion ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol.

4.7.2 Adeilad ecogyfeillgar unigryw yn darparu cynaliadwyedd hirdymor.

4.7.3 Darpariaeth allgymorth parhaol i wasanaethau Archifau yn defnyddio rhwydwaith y llyfrgell.

4.7.4 Gall ysgolion Sir Ddinbych, colegau addysg uwch, gwasanaethau oedolion a phlant a gwirfoddolwyr gael budd hyblyg ac addysg o’r adeilad Archifau.

4.7.5 Mynediad at wasanaeth cadwraeth a chyfleusterau cadwraeth o’r radd flaenaf.

4.7.6 Mynediad at adnodd ychwanegol – 9 aelod o staff ychwanegol – drwy'r gwasanaeth cyfun.

4.7.7 Bydd chwistrell o gronfeydd a fydd yn galluogi mynd â chasgliadau allan i'r cymunedau.

**4.8 CYNLLUNIAU AR GYFER CARCHAR RHUTHUN**

4.8.1 Mae'r Gweithgor wedi datblygu cynlluniau cyffrous ac arloesol ar gyfer ehangu atyniad treftadaeth y Carchar fel y gellir defnyddio'r lle a fydd yn dod yn wag ar gyfer y canlynol:

- Datblygu Profiadau Cell 'ymdrwythol'
- Llwybr 'carcharor ar ffo' awyr agored;
- Lle Chwarae;
- Ystafell fawr aml-swyddogaeth
- Cael gwared ar sgrin diogelwch gwydr;
- Dod â Chasgliadau Treftadaeth Sir Ddinbych at ei gilydd a'u harddangos; a
- Man dynodedig ar gyfer gweithgareddau archifau/hanes teuluol.

4.8.2 Mae'r Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio wedi cytuno i gasglu £65 mil o gronfa dros gefn yn bennaf ar gyfer y datblygiadau hyn. Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn gweithio ar gynnig ar gyfer ffynhonnell grant allanol, a fydd yn caniatáu ar gyfer estyniad pellach i'r gwasanaeth.

## 5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

5.1 Bydd yr adeilad newydd ond yn parhau os bydd £11,588,041 o arian grant Treftadaeth Gorwelion NLHF yn cael ei sicrhau. Yr amcangyfrif o gyfanswm y gost i'r prosiect hwn fydd £16,650,344. Bydd angen i Gyngor Sir Ddinbych gyfrannu 40% o cydran arian cyfatebol, sydd yn £2,034,521. Mae Sir y Fflint wedi cytuno i gyfrannu 60% - a fydd yn £3,027,782.

## 6 6 Effaith ar Wasanaeth Arall

6.1 Gwasanaethau Treftadaeth – ymadawiad y gwasanaeth Archifau o Garchar Rhuthun yn rhoi cyfle ar gyfer Atyniad Treftadaeth sy'n cymryd 30% o'r safle ar hyn o bryd.

**6.2 6.2 GWEITHRED ASED Y TU ALLAN I FFINIAU'R SIR**

6.2.1 Yn ystod bywyd yr adeilad, cynigir bod Sir y Fflint yn cadw'r rhydd-ddaliad o'r tir a'r adeilad, a bod Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i brydles gyda Chyngor Sir y Fflint yn

amlinellu'n glir telerau'r feddiannaeth yr adeilad a rennir. Bydd y brydles hwn yn para am 25 mlynedd i ddechrau, ar gyfradd rhent rhad, a chyfnodau adolygu a'r cyfle i adolygu ar ddiwedd y 25 mlynedd neu ar adeg dod â'r brydles i ben. Bydd rhannu costau yn cael ei wneud ar sail y boblogaeth – ar hyn o bryd mae'n 60/40 ac yn cael ei adolygu yn sgil unrhyw ddata cyfrifiad. Gan ystyried diwedd bywyd yr adeilad, cynigir na fyddai Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio unrhyw ad-daliad o'r gwerthiant neu fel arall yr ased fel y buddsoddiad cychwynnol o gyfalaf gan Gyngor Sir Ddinbych, yn ystod 25 mlynedd o weithredu, a fyddai wedi darparu budd i'r sefydliad yn ogystal ag unrhyw ad-daliad o'r gwerthiant.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Dengys yr asesiad yn atodiad B a mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

i. Sir Ddinbych a Sir y Fflint llewyrchus - Cadarnhaol
ii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint gwydn – Niwtral
iii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint iachach - Cadarnhaol
iv. Sir Ddinbych a Sir y Fflint mwy cydradd - Cadarnhaol
v. Sir Ddinbych a Sir y Fflint o gymunedau cydlynol - Cadarnhaol
vi. Sir Ddinbych a Sir y Fflint lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu - Cadarnhaol
vii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint sy'n gyfrifol yn fyd-eang - Niwtral

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- Briffio Cabinet - Tachwedd 2018, Hydref 2019 a Thachwedd 2020
- AMG - 17 Gorffennaf 2020
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – Hydref 2019 a Hydref 2020
- Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun – Hydref 2020
- Arolygon ar-lein y cyhoedd (2019 a 2020)

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

9.1 Mae'r penderfyniad yn un sydd angen gwir flaenoriaeth. Bydd dyrannu cyllid i'r prosiect hwn o'r naill ffynhonnell neu'r llall naill ai'n cyfyngu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau eraill yn y dyfodol neu'n cynyddu'r bwlch cyllidebol na ellir ond ei ariannu naill ai trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu wneud arbedion gwasanaeth. Os cytunir ar y cais a'i gymeradwyo wedyn gan Lywodraeth Cymru, bydd angen adnabod cyllideb sefydlu oddeutu £120 mil ar gyfer costau benthyg. Mae'r Grwp Buddsoddi Strategol wedi'i ddiweddaru'n gyflym a bydd angen ystyried cais am gyllid yn ystod y misoedd nesaf. 9.2 Os bydd yn cael ei gymeradwyo, yna bydd y penderfyniad terfynol i gymeradwyo'r cyllid yn dod yn ôl i'r Cabinet

# 10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.110.1 Rhestrir y risgiau yn atodiad C.

# 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11. Meusr Llywodraeth Leol (Cymru) - Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdod Lleol

11.2 Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962 (i) – bod cofnodion yn eu meddiant ar gael ar gyfer astudiaeth a (ii) cyfrannu tuag at dreuliau unigolyn sydd yn gofalu am gofnodion lleol.

11.3 Mae Adran 224 yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod pob prif gynghorau yn gwneud trefniadau ar gyfer gofal a chadwraeth o unrhyw ddogfennau.